CRYNODEB

Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn wahoddiad i roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i strwythurau'r GIG yng Nghymru.

Ymhlith y meysydd rydym am ymgynghori yn eu cylch mae:

(i) Diddymu'r Farchnad Fewnol yng Nghymru drwy roi arian oddi wrth Weinidogion Cymru neu Fwrdd Gwladol yn uniongyrchol i Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol;
(ii) Tri opsiwn ar gyfer sefydlu Bwrdd Gwasanaeth Iechyd Gwladol i Gymru (y Bwrdd Gwladol): sef Awdurdod Iechyd Arbennig, Bwrdd Gwasanaeth Sifil neu Fwrdd Cynghori sy'n cefnogi Prif Weithredwr ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y Bwrdd Gwladol/Prif Weithredwr yn goruchwylio'r GIG cyfan yng Nghymru, a bydd yn gyfrifol am gytuno ag Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol ar y gwaith y byddant yn ei gyflawni, a'r arian a gaiff ei ddarparu er mwyn caniatáu i'r gwaith hwnnw gael ei gyflawni;
(iii) Lleihau nifer y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru o ddau ddeg dau (22) i wyth (8) (gan gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Powys);
(iv) Trosglwyddo'r gwaith o reoli a darparu Gwasanaethau Cymunedol o Ymddiriedolaethau'r GIG i Fyrddau Iechyd Lleol;
(v) Cyfansoddiad ac aelodaeth y Byrddau Iechyd Lleol newydd yng Nghymru;
(vi) Cyfansoddiad ac aelodaeth Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru;
(vii) Model diwygiedig posibl ar gyfer darparu gwasanaethau cyffredin, fel caffael, rhai gwasanaethau cyfreithiol a chyngor ystadau ledled Cymru.

Rhagair gan Mrs Edwina Hart AC MBE, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r ddogfen *Cymru'n Un*[1] yn ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i '...*gymryd camau cadarn i roi terfyn ar y farchnad fewnol...*', er mwyn gwella gwasanaethau i gleifion. Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn nodi cynigion ymarferol ar gyfer gweithredu ar yr addewid hon. Mae'n targedu cleifion a'r cyhoedd, yn ogystal â phobl broffesiynol sy'n gweithio o fewn y GIG yng Nghymru a grwpiau eraill sydd â diddordeb. Mae'n canolbwyntio ar y penderfyniadau allweddol y mae angen eu cymryd dros y misoedd i ddod, er mwyn sefydlu rôl a sefyllfa newydd y GIG yng Nghymru.

Hoffwn wneud dau bwynt pwysig i ddechrau:

- Yn gyntaf, mae'r cynigion wedi'u llunio i ddilyn y newidiadau sydd eisoes ar y gweill yn y GIG yng Nghymru. Yn ystod y naw mis diwethaf, mae'r gwaith o drefnu strwythur Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru wedi codi momentwm, wrth i sefydliadau gyflwyno eu cynigion eu hunain i uno er mwyn gwella gofal cleifion. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg wedi uno i greu Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf, mae Ymddiriedolaethau GIG Abertawe a Bro Morgannwg wedi uno i greu Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg, ac mae Ymddiriedolaeth Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth Ceredigion a Chanolbarth Cymru ac Ymddiriedolaeth Sir Benfro a Derwen wedi uno i greu Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda. Fy nod yw gweithio gyda'r llif hwn o newid graddol sydd eisoes yn digwydd, yn hytrach na mynd ar drywydd cwbl newydd neu ad-drefnu radical.
- Yn ail, mae rhoi terfyn ar y farchnad fewnol ym maes iechyd yn rhan o benderfyniad ehangach Llywodraeth y Cynulliad i seilio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar gydweithredu yn hytrach na chystadlu. Caiff ethos newydd o weithio mewn partneriaeth ei annog o fewn y gwasanaeth cyhoeddus.

Yn y tudalennau i ddod, fe welwch y prif feysydd ymgynghori. Ym mhob un, mae'r cynigion rwy'n eu hawgrymu wedi'u nodi, a'r meysydd rwy'n gobeithio cael eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau chi amdanynt. Cyfeirir at y prif gynigion o ran newid yn y Papur Ymgynghori, ac mae cwestiynau ychwanegol ar y cynigion hyn yn **Atodiad D.**

Mae *Cymru'n Un* hefyd yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i roi lle canolog unwaith eto i gynnal cysylltiadau democrataidd yng ngwasanaeth iechyd Cymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r ymrwymiad hwnnw,

1 Llywodraeth Cynulliad Cymru. *Cymru'n Un*: *Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru;* Mehefin 2007

ac rwy'n edrych ymlaen at ddeuddeg wythnos o ddadlau, trafod ac ymgysylltu bywiog ym mhob rhan o Gymru.

Am fod y papur hwn yn fwriadol fyr, ac wedi'i lunio mewn ffordd sy'n hwylus i'r darllenwr cyffredin, mae'r manylion gwaelodol wedi'u tynnu ynghyd mewn cyfres o bapurau ategol, sef :

(i) Papur 1: Cael Gwared Â'r Farchnad Fewnol;
(ii) Papur 2: Y System Gynllunio Newydd Arfaethedig;
(iii) Papur 3: Llywodraethu yn y System Iechyd;
(iv) Papur 4: Cyrff a Sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

Gall unrhyw ddarllenwyr sy'n dymuno gweld y papurau hyn fynd atynt yn: www.wales.gov.uk/consultations neu gallwch gael copïau oddi wrth Sian-Marie James, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (Ffôn: 02920 826747).

Mae'n anochel bod nifer o faterion technegol pwysig iawn ynghlwm wrth y cynigion sydd wedi'u nodi yma. Caiff cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori technegol, penodol eu cynnal dros y 3 mis nesaf, fel rhan o'r broses ymgynghori gyffredinol. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r trefniadau manwl angenrheidiol i ategu ein cynigion terfynol yn gallu bod yn rhan o'r datblygiadau newydd.

Ymgynghorir yn fwy cyffredinol hefyd â grwpiau cleifion, arweinwyr lleol, Cynghorau Iechyd Cymuned a mudiadau gwirfoddol i sicrhau bod y grwpiau lleol perthnasol yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r Papur Ymgynghori hwn, ac yn ôl y materion a godir, caiff ymgynghoriad pellach ei gynnal ar strwythur arfaethedig y GIG a'r cyfuniad o Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol. Bydd `hyn yn cynnwys ymgynghori ar unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a fyddai'n ofynnol i weithredu unrhyw newidiadau y cytunir arnynt.

1. Beth mae diddymu'r Farchnad Fewnol yn ei olygu ar lefel genedlaethol?

Yng Nghymru, darperir gwasanaethau iechyd drwy gyrff y GIG yn bennaf, sef Byrddau Iechyd Lleol (a elwir yn ***Gomisiynwyr*** gwasanaethau o fewn y GIG), ac Ymddiriedolaethau'r GIG (a elwir yn ***Ddarparwyr*** gwasanaethau). Mae mwy o fanylion ar ddiddymu'r Farchnad Fewnol i'w gweld ym Mhapur 1: *Cael Gwared Â'r Farchnad Fewnol,* yn **www.wales.gov.uk/consultations*.***

Mae **dau ddeg dau (22) Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru,** ac mae'r rhain yn gyfrifol am iechyd a lles pobl sydd fel rheol yn byw yn eu hardal nhw. Mae ardaloedd BILlau yn cydffinio ag awdurdodau lleol; mae hyn yn golygu bod BILl yn gyfrifol am anghenion iechyd poblogaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae manylion y BILlau fel y maent ar hyn o bryd i'w gweld ar y map yn **Atodiad A.**

Asiantaeth weithredol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) (CIC). Mae CIC yn comisiynu gwasanaethau arbenigol (trydyddol) ar sail Cymru gyfan, a BILlau yn comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd (ysbytai) a gwasanaethau gofal sylfaenol. Disgwylir i BILlau gydweithio â CIC i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol digonol ar gyfer eu trigolion.

O 1 Ebrill 2008, mae **deg (10) Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru**; wyth yn darparu gwasanaethau ysbyty a iechyd cymunedol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn darparu gwasanaethau oncoleg arbenigol a nifer o wasanaethau eraill, ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn darparu gwasanaeth brys a thrafnidiaeth clinigol. Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau iechyd eilaidd a chymunedol a gomisiynir gan BILlau mewn nifer o safleoedd ysbyty ac o fewn y gymuned ledled Cymru. Mae manylion Ymddiriedolaethau'r GIG fel y maent ar hyn o bryd i'w gweld ar y map yn **Atodiad B.**

Rhaid dod o hyd i ffordd newydd o gynllunio a chyllido ein gwasanaethau iechyd cyn diddymu'r farchnad fewnol. Yr hyn a gynigir ar gyfer y dyfodol yw bod yr arian ar gyfer gwasanaethau Ymddiriedolaethau'r GIG ddim yn mynd drwy BILlau, fel 'prynwyr' gwasanaethau cymunedol ac ysbyty (eilaidd). Cynigir bod yr arian naill ai yn mynd yn uniongyrchol o Lywodraeth Cynulliad Cymru i Ymddiriedolaethau'r GIG neu drwy Fwrdd Gwladol ag iddo gyfansoddiad gwahanol. Darperir yr arian hwn o fewn fframwaith sy'n sicrhau bod adnoddau'r GIG yn cael eu dyrannu'n deg, gan adlewyrchu gwahanol anghenion iechyd, a'n hymrwymiad ni i leihau anghydraddoldeb yng Nghymru.

Er mwyn gwneud i hynny ddigwydd, cynigir sefydlu Bwrdd Gwasanaeth Iechyd Gwladol i Gymru (y Bwrdd Gwladol), gyda'i Brif Weithredwr ei hun.

Y Bwrdd Gwasanaeth Iechyd Gwladol i Gymru (y Bwrdd Gwladol)

Mae tri opsiwn y gellid eu defnyddio fel model ar gyfer y Bwrdd Gwladol:

(i) Awdurdod Iechyd Arbennig – corff corfforaethol fyddai hwn, yn uniongyrchol atebol i Weinidogion Cymru. Byddai'n cyflogi ei staff ei hun ac iddo gyfansoddiad tebyg i BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG, hy byddai ganddo Gadeirydd, swyddogion ac aelodau nad ydynt yn swyddogion;

(ii) Bwrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru â Phrif Weithredwr a bwrdd gwasanaeth sifil – asiantaeth weithredol i Lywodraeth y Cynulliad heb hunaniaeth gyfreithiol wahanol. Byddai'r staff i gyd yn weision sifil sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, a chanddynt Brif Weithredwr penodedig;

(iii) Prif Weithredwr Gwasanaeth Sifil gyda Bwrdd Cynghori – byddai'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau Gweinidog Cymru, ond yn yr achos hwn câi gefnogaeth Bwrdd Cynghori o swyddogion nad ydynt yn weision sifil.

Byddai'r Bwrdd Gwladol yn goruchwylio'r GIG cyfan yng Nghymru. Yn unol â'r ddau opsiwn cyntaf, byddai'n gyfrifol am gytuno ag Ymddiriedolaethau'r GIG a BILlau ar y gwaith y byddant yn ei gyflawni, a'r arian a gaiff ei ddarparu er mwyn caniatáu i'r gwaith hwnnw gael ei gyflawni. Byddai angen i'r broses gynllunio fod yn sensitif i anghenion lleol, gan gadw mewn cof wybodaeth a gyhoeddir gan y Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a ddatblygir rhwng BILlau ac awdurdodau lleol. Mae mwy o fanylion am y system gynllunio i'w gweld ym Mhapur 2: *Y System Gynllunio Newydd Arfaethedig* ar www.wales.gov.uk/consultations.

Rhagwelir y byddai'r Bwrdd Gwladol a'i Brif Weithredwr yn atebol i Weinidogion Cymru o ran cynllunio natur ac ansawdd y gwasanaethau i'w darparu, ac am fonitro'r sefydliadau newydd: hynny yw, byddant yn sicrhau bod Ymddiriedolaethau'r GIG a BILlau yn darparu'r gwasanaethau gofynnol i'r safonau ansawdd sy'n ofynnol i gleifion.

Pe bai'r trydydd opsiwn yn cael ei fabwysiadu, byddai disgwyl i'r Bwrdd Gwladol roi cyngor i'r Prif Weithredwr a Gweinidogion Cymru am gynllunio natur ac ansawdd y gwasanaethau a materion ariannol. Ond y Prif Weithredwr a Gweinidogion Cymru fyddai'n gyfrifol yn y pen draw am gynllunio ac ariannu gwasanaethau o hyd.

Yn ogystal ag ariannu a chynllunio gwasanaethau ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru, cynigir y byddai'r Bwrdd Gwladol neu, yn achos y trydydd opsiwn, y Prif Weithredwr, yn gyfrifol am gynllunio:

(i) Gwasanaethau a ddarperir yn Lloegr drwy gontractau bloc;
(ii) Contractau ar gyfer gofal cleifion unigol;
(iii) Gwasanaethau gan ddarparwyr nad ydynt yn perthyn i'r GIG, er enghraifft y sector gwirfoddol a nyrsio GIG mewn cartrefi nyrsio preifat.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae nifer o faterion pwysig am y Bwrdd Gwladol y mae'r Papur Ymgynghori hwn yn ceisio eich barn yn eu cylch:

(i) A ddylai fod gennym un Bwrdd Gwladol yn gyfrifol am (neu'n rhoi cyngor ar) ariannu a chynllunio gwasanaethau ar gyfer BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG?

(ii) A ddylai'r Bwrdd Gwladol hwnnw fod yn Awdurdod Iechyd Arbennig (Opsiwn 1), yn asiantaeth i Lywodraeth y Cynulliad (Opsiwn 2) neu'n Fwrdd Cynghori (Opsiwn 3)?

Llywodraethu yn y System Iechyd

Mae sefydlu Bwrdd Gwladol newydd yn golygu bod angen ailystyried trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cyrff penodol sy'n perthyn i'r GIG, i sicrhau bod proses lywodraethu'r system gyfan yn un gadarn. Mae mwy o fanylion am y trefniadau llywodraethu i'w gweld ym Mhapur 3: *Llywodraethu yn y System Iechyd* yn www.wales.gov.uk/consultations

Gyda llai o sefydliadau, bydd yn rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau yr ymgysylltir â chleifion a'r cyhoedd:

(i) Beth yw'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod trefniadau llywodraethu'r cyrff newydd yn sicrhau bod safbwyntiau pobl leol yn cael eu hadlewyrchu mewn ffordd briodol a bod llais y defnyddiwr yn cael ei ystyried yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd Gwladol?

Mae angen ystyried hefyd y berthynas rhwng y Bwrdd Gwladol a nifer o sefydliadau sy'n delio â chyrff y GIG, fel Cynghorau Iechyd Cymuned, Awdurdodau Lleol, ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:

(ii) Sut dylai Cynghorau Iechyd Cymuned, Awdurdodau Lleol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydweithio â'r Bwrdd Gwladol?

Gwasanaethau Arbenigol

Bydd goblygiadau uniongyrchol i greu Bwrdd Gwladol o ran y ffordd y cynllunnir gwasanaethau arbenigol ac y cânt eu darparu ar gyfer cleifion Cymru. Ochr yn ochr â'r cynigion hyn ac i lywio unrhyw gasgliadau, mae'r Athro Mansel Aylward CB wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad manwl o CIC.

2. Pa gynigion sydd yna ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol?

Cynigir bod BILlau yn dod yn brif gyfryngau ar gyfer datblygu a darparu'n fwyfwy wasanaethau iechyd cymunedol sylfaenol ac eraill o bosibl. Cynigir bod y BILlau naill ai yn derbyn yr arian ar gyfer y gwasanaethau hyn oddi wrth y Bwrdd Gwladol neu oddi wrth Weinidogion Cymru, yn dibynnu ar yr opsiynau a nodwyd yn 1 uchod.

Bydd BILlau yn cadw rôl arweiniad glir, a nhw fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am asesu anghenion lleol, newidiadau mewn gwasanaethau ac arwain cynlluniau lleol gydag Ymddiriedolaethau'r GIG a Llywodraeth Leol. Bydd BILlau yn gweithio o fewn system gynllunio ddiwygiedig ar gyfer y GIG yng Nghymru a fydd yn disodli'r fframwaith comisiynu diweddaraf. Mae mwy o fanylion am y strwythur cynllunio arfaethedig ar gyfer y dyfodol i'w gweld ym Mhapur 2: *Y System Gynllunio Newydd Arfaethedig* yn www.wales.gov.uk/consultations

Bydd angen gwasanaethau hefyd ar lawer o gleifion unigol cyn mynd i'r ysbyty ac ar ôl gadael. Er mwyn tynnu'r ddwy agwedd hon ynghyd, cynigir bod **saith (7) Bwrdd Iechyd Lleol** sy'n cydffinio ag Awdurdodau Lleol Cymru yn ogystal â'r saith Ymddiriedolaeth GIG y cyfeirir atynt yn yr adran nesaf, ynghyd â Bwrdd Iechyd Lleol Powys. Cynigir felly gael cyfanswm o **wyth (8) Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.** Mae manylion y BILlau arfaethedig i'w gweld mewn print trwm ar y map yn **Atodiad A**.

Yn dilyn yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer llywodraethu clinigol a diogelwch cleifion o fewn gwasanaethau darparu BILl Powys (Mawrth 2007), ystyrir cael gwared ar allu BILl Powys i ddarparu gwasanaethau gofal eilaidd (ysbyty). Yn y dyfodol, cynigir bod y swyddogaethau darparu hyn yn cael eu cynnig mewn canolfannau ac ysbytai ym Mhowys gan Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n cydffinio â BILl Powys.

(i) A ydych yn cytuno â'r cynnig i leihau nifer BILlau Cymru o ddau ddeg dau i wyth?

Rheoli Gwasanaethau Cymunedol

At ddibenion y Papur Ymgynghori hwn, gellir diffinio Gwasanaethau Cymunedol fel gwasanaethau yn y gymuned sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iach, cyflawn ac annibynnol. Mae'n cynnwys gwasanaethau cyfarwydd fel:

- gwasanaethau cymunedol cyffredinol fel y nyrs ardal, yr ymwelydd iechyd, y fydwraig gymunedol, y nyrs seiciatrig gymunedol, y nyrs ysgol a gwasanaethau therapi cymunedol;

- gwasanaethau clinigol neu allgymorth [GIG] arbenigol;
- gofal seibiant a gwasanaethau cartrefi nyrsio.[2]

Mae hefyd yn cynnwys rheoli a darparu Ysbytai Cymunedol.

Yn ei adolygiad diweddar o wasanaethau cymunedol yn y Gogledd, nododd Dr Christopher Jones CBE fod angen datblygu gweledigaeth a strategaeth i sicrhau bod gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn cael eu datblygu gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion agenda Cymru.[3]

Mae'n hanfodol felly ein bod yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng meddygon teulu, nyrsys cymunedol, a staff gofal cymunedol a gyflogir gan awdurdodau lleol i ddarparu cymaint o ofal y tu allan i ysbytai â phosibl. Un ffordd o wneud hyn fyddai trosglwyddo'r gwaith o reoli gwasanaethau cymunedol, y mae Ymddiriedolaethau'r GIG yn gyfrifol amdano ar hyn o bryd, i'r BILlau.

Y posibilrwydd hwn yw un o'r cwestiynau pwysicaf i'w datrys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn:

(i) **A ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli a darparu gwasanaethau cymunedol o Ymddiriedolaethau'r GIG i'r BILlau?**

Ymgysylltu â Phobl yn Lleol

Mae achos cryf dros annog y GIG i ymateb yn fwy i brofiadau lleol o ddarparu gofal iechyd, ac ymateb i heriau iechyd lleol. Yma, gall y term *lleol* olygu cymunedau bach, ystadau tai neu grwpiau poblogaeth. Mae'r profiad o geisio rheoli newidiadau mewn gwasanaethau lleol hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu ag arweinwyr lleol wrth ddiffinio'r problemau y mae angen eu datrys, a chynllunio ffyrdd o wneud hynny, os ydym am weld newidiadau llwyddiannus. Mae'r egwyddor hon o weithredu'n lleol yn sylfaenol bwysig. Bydd angen i'r BILlau cyfun arfaethedig **(Atodiad A)** weithredu'n effeithiol ar lefel fwy lleol, gan gydnabod darpariaethau statudol parhaus a rôl allweddol sefydliadau fel Byrddau Gwasanaethau Lleol. Fel yn achos yr Ymddiriedolaethau GIG cyfun newydd, byddai angen trefniadau llywodraethu newydd ar y saith BILl a BILl Powys er mwyn adlewyrchu eu cylch gwaith a'u pwrpas newydd.

2Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Fframwaith Gwasanaethau Cymunedol;* Ebrill 2007

3 Jones, Dr C CBE. *Adolygiad o Effeithiau Datblygiadau mewn Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol mewn perthynas â Chynllun Gogledd Cymru;* Chwefror 2008

Unwaith eto, mae yna faterion y mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio eich barn yn eu cylch:

(i) A ydych yn cytuno â'r cynigion bod angen i Fyrddau Iechyd Lleol mwy weithredu hefyd ar lefel fwy lleol?

(ii) Os felly, sut dylid mynd ati i wneud hyn?

Mae angen ystyried sut y gellid trefnu byrddau'r BILlau arfaethedig. Ar hyn o bryd, mae yna Reoliadau[4] sy'n darparu ar gyfer aelodaeth swyddogion y BILl ac aelodaeth ar gyfer y sawl nad ydynt yn swyddogion. Darperir hefyd ar gyfer meini prawf cymhwysedd ar gyfer categorïau penodol o aelodau. Mae'r Byrddau presennol yn dilyn model 'rhanddeiliaid' yn fras, gyda chynrychiolwyr o lywodraeth leol, grwpiau gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sylfaenol, y sector gwirfoddol a grwpiau cleifion:

(i) A ddylai'r model hwnnw barhau yn y dyfodol?
(ii) A ddylem symud i batrwm gwahanol, gyda Byrddau 'gweithredol' llai, sy'n atebol i gymuned ehangach o randdeiliaid?
(iii) Sut berthynas ddylai fod rhyngddynt a'r Bwrdd Gwladol?

Yn y naill achos neu'r llall, bydd angen gwneud penderfyniadau ar y mathau o sgiliau a phrofiadau ddylai fod gan aelodau Bwrdd.

Am fod gweithredu'n lleol mor bwysig, bydd y broses ymgynghori hon yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau lle bydd cyfle i bobl gymryd rhan a lle gall safbwyntiau llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, Cynghorau Iechyd Cymuned a grwpiau cleifion a'r cyhoedd gael eu bwydo'n uniongyrchol i'r rhan hon o'r broses.

Mae Papur 3: *Llywodraethu yn y System Iechyd* yn amlinellu'r materion llywodraethu mewn perthynas â BILlau ac Ymddiriedolaethau GIG presennol. Mae hwn i'w weld yn www.wales.gov.uk/consultations

4 Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2003 (OS 2003/149)

3. Sut bydd hyn yn effeithio ar Ymddiriedolaethau'r GIG?

Ar hyn o bryd mae Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u sefydlu i ddarparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau gofal eilaidd ysbyty a gwasanaethau arbenigol, ynghyd â darparu gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl.

Yn y dyfodol, cynigir bod Ymddiriedolaethau'r GIG yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ysbyty cyffredinol ac arbenigol. Nid yw'r cynigion ar gyfer strwythur Ymddiriedolaethau'r GIG yn y Gogledd yn y dyfodol wedi'u cwblhau'n derfynol eto. Daeth yr ymgynghoriad ar gynnig i uno Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Ddwyrain Cymru ac Ymddiriedolaeth Conwy a Sir Ddinbych i ben ar 31 Mawrth 2008. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Orllewin Cymru wedi mynegi dymuniad i barhau'n gorff ar wahân.

Mae cyrff y GIG yn y Gogledd wedi bod yn datblygu cynlluniau ar gyfer dyfodol gwasanaethau ysbyty, ar sail system gwbl integredig. Os bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn awgrymu mai'r ffordd orau o ofalu am anghenion pobl Gogledd-Orllewin Cymru yw cael dwy Ymddiriedolaeth GIG ar wahân (sef Ymddiriedolaeth Gogledd-Ddwyrain Cymru ac Ymddiriedolaeth Conwy a Sir Ddinbych, gydag Ymddiriedolaeth Gogledd-Orllewin Cymru yn gorff ar wahân), yna byddai angen inni sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth GIG newydd yn cydweddu â ffiniau'r BILlau/Awdurdodau Lleol perthnasol. Byddai hyn yn golygu bod Ysbyty Llandudno yn cael ei gweinyddu yn y dyfodol gan Ymddiriedolaeth GIG newydd Conwy a Sir Ddinbych a Gogledd-Ddwyrain Cymru.

Yn wahanol i BILlau, sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ardal benodol, ac sy'n gyfrifol am bobl sy'n byw yn yr ardal honno fel rheol, mae Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u sefydlu i ddarparu nwyddau a gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd. Nid oes gan Ymddiriedolaethau'r GIG ffin ddaearyddol sydd wedi'i diffinio'n gyfreithiol y maen nhw'n gyfrifol amdani, ond maent yn gweithredu o fewn ardaloedd diffiniedig.

Erbyn i'r cylch cyfredol o uno Ymddiriedolaethau'r GIG gael ei gwblhau, ac yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ffurfiol, Bwrdd yr Ymddiriedolaethau ac, yn y pen draw, gymeradwyaeth y Gweinidog i uno Ymddiriedolaeth Gogledd-Ddwyrain Cymru ac Ymddiriedolaeth Conwy a Sir Ddinbych, rhagwelir y bydd **saith (7) Ymddiriedolaeth ysbyty GIG** yn bodoli yng Nghymru, ynghyd ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Ymddiriedolaeth arbenigol) ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau

Ambiwlans Cymru. Cynigir, felly gael **naw (9) Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.** Mae manylion yr Ymddiriedolaethau GIG arfaethedig i'w gweld mewn print trwm ar y map yn **Atodiad B**.

Nid dyfodol Ymddiriedolaeth GIG Felindre (gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol), Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a gwasanaethau iechyd meddwl yw testun y Papur Ymgynghori hwn. Serch hynny, yn y meysydd arbenigol hyn mae yna ddatblygiadau parhaus, ac ymgynghorir ar y rhain mewn ymarferion ar wahân, yn ôl yr angen.

Oherwydd y gostyngiad yn nifer yr Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn sgil yr uno diweddar, a'r bwriad i roi terfyn ar y farchnad fewnol, mae angen ystyried sut dylid creu Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG yn y dyfodol a'u perthynas â'r Bwrdd Gwladol arfaethedig.

Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau[5] yn darparu mai uchafswm nifer cyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth GIG fydd deuddeg (ac eithrio'r Cadeirydd), gyda dim mwy na saith cyfarwyddwr anweithredol a dim mwy na phum cyfarwyddwr gweithredol.

Dyma'r cwestiynau yn y maes hwn, felly:

(i) Sut dylid creu Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG yn y dyfodol?
(ii) Sut berthynas ddylai fod rhyngddynt a'r Bwrdd Gwladol?

5 Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (OS 1990/2024)

4. Ystyriaethau Eraill

Gwasanaethau Cymorth

Mae angen amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gyrff y GIG gan gynnwys ystadau, gwasanaethau cyfreithiol, caffael, gwasanaethau gwybodaeth a llawer o wasanaethau eraill.

Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o reoli rhai o'r gwasanaethau hyn wedi'i rannu ar draws sefydliadau'r GIG. Mae lleoliadau'r gwasanaethau hyn, fel y maent ar hyn o bryd, i'w gweld ar y map yn **Atodiad C.** O gofio'r cynnig y dylai Ymddiriedolaethau'r GIG ganolbwyntio ar wasanaethau gofal cleifion, ystyrir y gallai fod yn well cael sefydliad arall i ddarparu'n benodol wasanaethau gofal nad ydynt yn ymwneud â chleifion.

(i) A ddylai'r diwygiadau a nodwyd yma gynnwys tynnu'r gwasanaethau hyn ynghyd yn un corff gwasanaethau cyffredin ar gyfer y GIG yng Nghymru?

Mae mwy o fanylion am strwythur diweddaraf y GIG i'w gweld ym Mhapur 4: *Cyrff a Sefydliadau'r GIG yng Nghymru* yn www.wales.gov.uk/consultations

Casgliad

Mae'n bwysig cydnabod y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar sefydliadau ac unigolion. Ymrwymiad, profiad ac arbenigedd y sawl sy'n gweithio o fewn y GIG yw ased bwysicaf y gwasanaethau iechyd a ddarperir o hyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn benderfynol y dylid diogelu hyn wrth i unrhyw newidiadau arfaethedig gael eu gweithredu.

Mae'r cynigion hyn yn seiliedig ar ddymuniad i sicrhau trefniadau gweinyddol ar gyfer y GIG yng Nghymru sy'n effeithiol i wella gwasanaethau i gleifion; nid materion cost sy'n eu gyrru. Bydd trefniadau newydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith ariannol diweddaraf. Caiff staff eu trin yn deg, o fewn fframwaith polisi cynhwysfawr ar gyfer rheoli'r rhaglen newid.

Atodiad A Byrddau Iechyd Lleol Cymru – Nawr ac yn y Dyfodol



Cartographics
Cartograffeg

Ebrill 2008

Atodiad B Ymddiriedolaethau GIG Cymru – Nawr ac yn y Dyfodol



Cartographics
Cartograffeg

Ebrill 2008

Atodiad C Cyrff a Reolir/A Lywyddir gan y GIG yng Nghymru



ATODIAD C - Allwedd

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

(1) Cyflenwadau Iechyd Cymru
(2) Labordy Profi Cyfarpar Llawfeddygol
(3) Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
(4) Canolfan Cydraddoldeb Hawliau Dynol y GIG
(5) Yr Uned Cyflawni a Chefnogi
(6) Hysbysu Gofal Iechyd
(7) Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid

Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro

(8) Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan
(9) Uned Rheoli Rhaglenni
(10) Gwasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig
(11) Y Gyfarwyddiaeth Fferyllol, Grwp Gwasanaethau Cymorth Clinigol
(12) Uned Rheoli Ansawdd Cymru Gyfan
(13) Canolfan Adnoddau Moddion Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych

(14) Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru
(15) Cronfa Risg Cymru
(16) Gwasanaethau a Rennir ar gyfer y Bartneriaeth Cefnogi Busnes

Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf

(17) Ystadau Iechyd Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

(18) Atebion Iechyd Cymru
(19) Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
(20) Gwasanaethau Sgrinio Cymru Gyfan
(21) Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru
(22) Gwasanaeth Gwaed Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

(23) Galw Iechyd Cymru

Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu

(24) Canolfan Gwasanaethau Busnes

Atodiad D - FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Dogfen Ymgynghori ar y Newidiadau i Strwythurau'r GIG Iedled Cymru

Y terfyn amser ar gyfer ymatebion: **25 Mehefin 2008**

Byddai o fudd mawr pe baech yn defnyddio'r ffurflen hon i ymateb i'r ymgynghoriad.

Enw: .....

Sefydliad: .....

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post): .....

Cyfeiriad e-bost: .....

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Fel rheol, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda'r ymatebion, gan fod gwneud hynny'n rhoi hygrededd i'r broses ymgynghori. Os nad ydych am gael eich enwi fel awdur yr ymateb, ticiwch y blwch. ☐

Dylai eich sylwadau fod mor fanwl â phosibl.

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen yn ôl at:

Enw: Sian-Marie James
Cyfeiriad: Yr Uned Strategaeth
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gallwch anfon fersiynau electronig yn ôl at:

sianmarie.james@wales.gsi.gov.uk

Diolch am roi o'ch amser i ystyried y newidiadau arfaethedig hyn ac am ymateb i'r ymgynghoriad.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 –
Cyfrinachedd Ymgyngoriadau

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ddiwedd y broses ymgynghori. Gallwch wneud cais am gael gweld eich ymateb chi a phob ymateb arall i'r ymgynghoriad.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall Llywodraeth y Cynulliad wrthod datgelu gwybodaeth. **Cyn** cyflwyno eich ymateb, darllenwch y paragraffau isod ar gyfrinachedd ymgyngoriadau. Mae'r rhain yn sôn am y sefyllfa gyfreithiol ynghylch unrhyw wybodaeth a rowch mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl i'r cyhoedd weld unrhyw wybodaeth sydd gan awdurdod cyhoeddus, sef Llywodraeth y Cynulliad yn yr achos hwn. Mae'r hawl hon i weld gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriad. Ni all Llywodraeth y Cynulliad ystyried gwybodaeth a gaiff mewn ymateb i ymgynghoriad fel gwybodaeth gyfrinachol yn awtomatig.

Fodd bynnag, mae'n gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu i'r cyhoedd weld unrhyw wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth amdanoch chi, neu a ddylid ei thrin yn gyfrinachol. Fel rheol, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda'r ymateb, gan fod gwneud hynny'n rhoi hygrededd i'r broses ymgynghori. Os nad ydych am inni gyhoeddi eich ymateb, esboniwch pam yn eich ymateb os gwelwch yn dda.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd y gallai fod yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad, mewn rhai amgylchiadau, rannu gwybodaeth â thrydydd partïon os gofynnant amdani, er mwyn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau statudol. Mae hyn yn cynnwys ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992. I gael mwy o wybodaeth am God Ymarfer y Cynulliad o ran delio â cheisiadau i gael gweld yr wybodaeth sydd ganddo, ewch i'n gwefan: www.gwybodaeth.cymru.gov.uk

C.1: Y Bwrdd Gwladol

- A ddylai fod gennym un Bwrdd Gwladol yn gyfrifol am (neu'n rhoi cyngor ar) ariannu a chynllunio gwasanaethau ar gyfer BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG?

- A ddylai'r Bwrdd Gwladol hwnnw fod yn Awdurdod Iechyd Arbennig (Opsiwn 1), yn asiantaeth i Lywodraeth y Cynulliad (Opsiwn 2) neu'n Fwrdd Cynghori (Opsiwn 3)?

- Beth yw'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod trefniadau llywodraethu'r cyrff newydd yn sicrhau bod safbwyntiau pobl leol yn cael eu hadlewyrchu mewn ffordd briodol a bod llais y defnyddiwr yn cael ei ystyried yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd Gwladol?

- Sut dylai Cynghorau Iechyd Cymuned, Awdurdodau Lleol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydweithio â'r Bwrdd Gwladol?

Opsiwn 1: Os bydd y Bwrdd Gwladol yn Awdurdod Iechyd Arbennig:

(i) Sut dylid rhannu cyfrifoldebau'r Bwrdd Gwladol a'r BILlau a Byrddau'r Ymddiriedolaethau?
(ii) Faint o aelodau ddylai fod gan y Bwrdd Gwladol?
(iii) A ddylai fod gan y Bwrdd Gwladol aelodau nad ydynt yn swyddogion?
(iv) Pa amrywiaeth fuddiannau gwahanol ddylai gael eu cynrychioli?
(v) Sut gallwn sicrhau y byddai'r broses gynllunio ac ariannu genedlaethol a ddilynid gan y Bwrdd Gwladol yn sensitif i anghenion lleol ac y byddai'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol?

Opsiwn 2: Os bydd y Bwrdd Gwladol yn asiantaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

(i) Sut dylid rhannu cyfrifoldebau'r Bwrdd Gwladol a'r BILlau a Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG?

(ii) Sut gallwn sicrhau y byddai'r broses gynllunio ac ariannu genedlaethol a ddilynid gan y Bwrdd Gwladol yn sensitif i anghenion lleol ac y byddai'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol?

Opsiwn 3: Os ceir Bwrdd Cynghori a Phrif Weithredwr o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru:

(i) Sut dylid rhannu cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG?
(ii) Sut gallwn sicrhau y byddai'r broses gynllunio ac ariannu genedlaethol a ddilynid gan y Prif Weithredwr yn sensitif i anghenion lleol ac y byddai'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol?
(iii) Faint o aelodau ddylai fod gan y Bwrdd?
(iv) Pa fuddiannau gwahanol ddylai gael eu cynrychioli?

Contractau Cyflogaeth

(i) O ran diwygio Adnoddau Dynol, a ddylid cael contract cyflogaeth cyffredin ar gyfer pob aelod staff a benodir i Ymddiriedolaethau'r GIG a BILlau yng Nghymru?

C2: Strwythur Byrddau Iechyd Lleol

- A ydych yn cytuno â'r cynnig i leihau nifer BILlau Cymru o ddau ddeg dau i wyth?

C3: Rheoli Gwasanaethau Cymunedol

- A ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli a darparu gwasanaethau cymunedol o Ymddiriedolaethau'r GIG i'r BILlau?

(i) Os gwneir newidiadau, a ddylid trosglwyddo *pob* gwasanaeth cymunedol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan Ymddiriedolaethau'r GIG?
(ii) Sut dylid gwella rôl uniongyrchol y BILlau wrth ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol?
(iii) Mewn unrhyw drefniant ar gyfer y dyfodol, sut bynnag y dyrennir y cyfrifoldeb am wasanaethau cymunedol, sut gallwn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cydgysylltu'n iawn?
(iv) Sut dylai fod yn ofynnol i Ymddiriedolaethau'r GIG a'r BILlau gydweithredu'n effeithiol i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal di-fwlch?
(v) A oes ffyrdd gwahanol/gwell o sicrhau gwell ffyrdd o weithio rhwng gwasanaethau a ddarperir gan BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG?

C4: Ymgysylltu â Phobl yn Lleol

- A ydych yn cytuno â'r cynigion bod angen i BILlau mwy weithredu hefyd ar lefel fwy lleol?
- Os felly, sut dylid mynd ati i wneud hyn?

(i) Sut dylid cynnal perthynas gydffiniol ag awdurdodau lleol yng Nghymru?

(ii) A ddylem symud tuag at gael unedau llai ar gyfer ymgysylltu, ar lefel awdurdod is-leol?

(iii) Pa rolau y dylid eu cyflawni drwy'r unedau llai hyn?

(iv) Ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned yn benodol, sut gallwn sicrhau bod eu rolau craffu ac eiriolaeth sylfaenol yn gweddu i'r strwythurau newydd sydd wedi'u nodi yma?

(v) Beth yw'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod trefniadau llywodraethu'r cyrff newydd yn sicrhau bod safbwyntiau pobl leol yn cael eu hadlewyrchu mewn ffordd briodol a bod llais y defnyddiwr yn cael ei ystyried yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd?

(vi) Sut gallwn sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn parhau i ymgysylltu'n llawn â Byrddau Gwasanaethau Lleol ac i gael eu cynrychioli arnynt?

C5: Strwythur Byrddau BILlau

- A ddylai'r model 'rhanddeiliaid' diweddaraf ar gyfer Byrddau BILlau (gyda chynrychiolwyr o lywodraeth leol, grwpiau gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sylfaenol, y sector gwirfoddol a grwpiau cleifion) barhau yn y dyfodol?
- A ddylem symud i batrwm gwahanol, gyda Byrddau 'gweithredol' llai, sy'n atebol i gymuned ehangach o randdeiliaid?
- Sut berthynas ddylai fod rhyngddynt a'r Bwrdd Gwladol?

(i) Sawl aelod ddylai fod gan Fyrddau BILlau sy'n swyddogion ac nad ydynt yn swyddogion?
(ii) A ddylid rhagnodi uchafswm a lleiafswm nifer?
(iii) Beth ddylai fod yn brif gylch gwaith eu haelodau?
(iv) Pa fath o sgiliau a phrofiadau ddylai fod ganddynt?
(v) Sut gallwn sicrhau bod y broses recriwtio yn denu'r unigolion iawn?

C6: Strwythur Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG

- Sut dylid creu Byrddau Ymddiriedolaethau'r GIG yn y dyfodol?
- Sut berthynas ddylai fod rhyngddynt a'r Bwrdd Gwladol?

(i) Sawl aelod ddylai fod gan Fyrddau Ymddiriedolaethau'r GIG?
(ii) A ddylid rhagnodi uchafswm a lleiafswm nifer cyfarwyddwyr?
(iii) Beth ddylai fod yn brif gylch gwaith eu haelodau?
(iv) Pa fath o sgiliau a phrofiadau ddylai fod ganddynt?
(v) Sut gallwn sicrhau bod y broses recriwtio yn denu'r unigolion iawn?
(vi) A oes yna enw gwell y gellid ei ddefnyddio yn lle 'Ymddiriedolaethau'r GIG' a fyddai'n cyfleu'r cyfrifoldebau a'r ffyrdd newydd o weithio a ddisgwylir yn y dyfodol?

C7: Gwasanaethau Cymorth

- A ddylai'r diwygiadau a nodwyd yn y Papur Ymgynghori gynnwys tynnu'r gwasanaethau hyn ynghyd yn un corff gwasanaethau cyffredin ar gyfer y GIG yng Nghymru?

(i) Os felly, pa amrywiaeth o wasanaethau ddylai corff o'r fath eu darparu?

(ii) Pa fodel trefniadol fyddai'n ategu ei waith yn y ffordd orau?

Atodiad E

Aelodau'r Cynulliad	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Clerc y Pwyllgor	
Clerc y Pwyllgor	
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr	Ymddiriedolaethau'r GIG
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr	Byrddau Iechyd Lleol
Cyfarwyddwr	Y Ganolfan Gwasanaethau Busnes
Prif Weithredwr	Partneriaeth Cymorth Busnes Gogledd Cymru
Cyfarwyddwr	Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru
Cadeirydd a Phrif Swyddog	Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Prif Weithredwr	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Prif Weithredwyr	Awdurdodau Lleol yng Nghymru
Cyfarwyddwyr	
Gwasanaethau Cymdeithasol	Awdurdodau Lleol yng Nghymru
Deon	Prifysgol Cymru, Bangor
Deon	Prifysgol Abertawe
Deon	Prifysgol Caerdydd
Deon	UWIC
Deon	Prifysgol Cymru – Casnewydd
Deon	Prifysgol Morgannwg
Cyfarwyddwr	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Prif Weithredwr	Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Ysgrifennydd	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
Deon Uwchraddedigion	Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru
Cadeirydd	Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru
Pennaeth Iechyd Rhanbarthol	UNSAIN
Cyfarwyddwr	Coleg Brenhinol y Nyrsys (Cymru)
Cynrychiolydd y Cyngor Cymreig	Cymdeithas Ddeieteg Prydain
Ysgrifennydd Cymru	Cymdeithas Orthoptig Prydain
Ysgrifennydd	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Ysgrifennydd Cymru	Undeb AMICUS
Ysgrifennydd Rhanbarthol	GMB
Ysgrifennydd Rhanbarthol	Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol
Cadeirydd	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cadeirydd	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Ysgrifennydd Cyffredinol	TUC Cymru
Cyfarwyddwr Cymru	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion
Swyddog Cymru	Cymdeithas y Radiograffwyr
Swyddog	Cymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion
Ysgrifennydd Rhanbarthol	Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr
Ysgrifennydd Bwrdd Cymru	Coleg Brenhinol y Bydwragedd
Swyddog Cymru	Cymdeithas Staff Trydanol a Pheirianyddol AMICUS
Ysgrifennydd Rhanbarthol	Undeb Cyfun Peirianwyr a Thrydanwyr AMICUS
Bwrdd Gweithredol Cymru	Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr
Cyfarwyddwr	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Aelod Cenedlaethol Cymru	AMICUS – Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd
Rheolwr Busnes	Sefydliad Rheoli Gofal Iechyd
Prif Weithredwr	Cymdeithas yr Optometryddion

Llyfrgellydd	Coleg Optometryddion Prydain
Cyfarwyddwr Cyffredinol	Swyddfa Archwilio Cymru
Yr Ysgrifenyddiaeth	Pwyllgorau Cynghori Statudol ar Iechyd
Cyfarwyddwyr Rhanbarthol	Swyddfeydd Rhanbarthol GIG Cymru
Prif Weithredwr	Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)
Cyfarwyddwr	Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Cadeirydd	Canolfan Iechyd Cymru
Prif Weithredwr	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Llyfrgellydd	Llyfrgell Hybu Iechyd
Prif Weithredwr	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cyfarwyddwr	Hysbysu Gofal Iechyd
Cadeiryddion a Phrif Swyddogion	Cynghorau Iechyd Cymuned
Cyfarwyddwr	Cynhalwyr Cymru
Cyfarwyddwr	Cynghrair Cynhalwyr Cymru
Cyfarwyddwr	Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG
David Nicholson	Yr Adran Iechyd
Kevin Woods	Gweithrediaeth yr Alban
Andrew McCormack	Cynulliad Gogledd Iwerddon
Prif Gwnstabliaid yng Nghymru	
Prif Swyddogion Prawf yng Nghymru	
Rheolwr Rhanbarthol (Cymru)	Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid	
Prif Weithredwr	CAFCASS
Ombwdsmon	Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Comisiynydd Plant Cymru	
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	